F'enaid, gwêl i Gethsemane

Caneuon Ffydd: Rhif 497

F'enaid, gwêl i Gethsemane,
edrych ar dy Brynwr mawr
yn yr ing a'r ymdrech meddwl,
chwys a gwaed yn llifo i lawr.
Dyma'r cariad mwyaf rhyfedd,
mwyaf rhyfedd fu erioed!

Yn yr ardd, pan ddaliwyd Iesu,
fe atebodd drosom ni,
"Gadewch iddynt hwy fynd ymaith,
yn eu lle cymerwch fi!"
Dyma'r cariad mwyaf rhyfedd,
mwyaf rhyfedd fu erioed!

THOMAS WILLIAM, 1761–1844

MYFYRDOD

Roedd enaid Iesu 'yn drist iawn hyd at farw' yn ôl Marc (14:34) pan ddaeth i ardd Gethsemane ar y noson dyngedfennol honno yn ei hanes; yr wythnos fawr bron ar ben, y swper olaf wedi bod ac Iesu'n ymwybodol iawn, mewn modd na fu erioed hyd yn hyn, o'r gwewyr a'r poen oedd o'i flaen. Sylwi ar yr enaid trist hwnnw mae Thomas William, Bethesda'r Fro, gyda'i enaid ef ei hun, y rhan honno ohono sydd yn gallu dirnad y gwewyr meddwl yr oedd Iesu ynddo yng Ngethsemane.

Cawn ein cymell gan yr emynydd i sylwi ar y digwyddiadau yng ngardd Gethsemane y noson honno y bu Iesu a'i ddisgyblion yno, a chyda rhyw annheilyngdod y deuwn i weld trwy gyfrwng yr adroddiadau faint oedd gwewyr meddwl Iesu mewn gwirionedd. Cymaint oedd y gwewyr meddwl nes iddo ei amlygu ei hun yn gorfforol yn y 'chwys a gwaed yn llifo i lawr'. Mae sôn am rai

milwyr adeg y Rhyfel Byd Cyntaf a oedd mewn cymaint o wewyr wrth feddwl am ddod allan o'r ffosydd a 'mynd dros y top' at y gelyn fel y'u gwelwyd hwythau hefyd yn chwysu gwaed.

Bu llawer yn gofyn erioed pam y bu'n rhaid i Iesu ddioddef y fath boen, yma yn yr ardd, yn y poenydio wrth gael ei lusgo o'r naill lys i'r llall, ac ar y groes ei hun. Ond yma yng Ngethsemane mae'r allwedd i'r cwestiwn hwnnw. Yma yng Ngethsemane y cawn ni sefydlu unwaith ac am byth nad oedd ufudd-dod Iesu yn rhywbeth oedd yn cael ei orfodi arno yn erbyn ei ewyllys, ond ei fod o'i wirfodd ei hun, fel bugail da, yn rhoi ei einioes dros y defaid (Ioan 10:7–18). Ffoi mae'r gwas cyflog am nad oes ganddo ofal am y defaid, ond mae'r bugail da yn aros ac yn fodlon gwneud yr aberth mwyaf dros ei ddefaid am mai ef sydd piau nhw. Hwn yw'r gwas sydd yn fodlon dioddef a chymryd ei arwain 'fel oen i'r lladdfa' (Eseia 53:7). Yma mae darlun yr oen a'r bugail yn dod ynghyd gyda'r cyfan er ein mwyn ni.

Meddyliwn am Iesu fel un sydd â heddwch mewnol a thangnefedd yn llifo allan ohono. Ond yng Ngethsemane mae yna drallod a gwewyr am ei fod yn gwybod bod ei dangnefedd mewnol yn gwbl ddibynnol ar ei undeb â Duw ei Dad, a'i fod yn gwybod hefyd y byddai'r berthynas honno'n cael ei thorri wrth iddo gymryd arno'i hun ein pechodau ni mewn gwirionedd a marw mewn gwirionedd er ein mwyn. Mae'n gwbl ryfeddol iddo fodloni ar wneud hyn i gyd drosom ni. 'Dyma'r cariad mwyaf rhyfedd, mwyaf rhyfedd fu erioed!'

GWEDDI

O Dduw graslon a chariadus, does gennyf fi ddim geiriau sy'n ddigonol i fynegi'r hyn a deimlaf am ufudd-dod a bodlonrwydd Iesu i fod yn aberth drosof i. Rwy'n rhyfeddu at y cariad mwyaf fu erioed! Yn enw Iesu. Amen.